

AMODAU

1. Bydd gan y Beirniaid hawl i atal neu rannu gwobrau yn ôl teilyngdod.
2. Rhaid i bob cystadleuydd dderbyn cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod ag eithrio'r partion, ac Unawd allan o Sioe Gerdd. (Gall hyn gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys unrhyw leisiau cefndir).
3. Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopïau i'r Beirniad a'r Cyfeilydd ac anfon copïau o gerddoriaeth gwirioneddol anodd i'r cyfeilydd ymlaen llaw.
4. Rhaid i'r cystadleuwyr Cerdd Dant ofalu am gopi o'r geiriau i'r Beirniad a chopi o'r alaw yn y cyweirnod priodol i'r cyfeilydd.
5. Y cynnyrch yn yr adrannau Llenyddiaeth a Chelf i fod yn llaw'r Ysgrifennydd erbyn Chwefror 1af, 2027. Ffugenw ar y Gwaith gydag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd ynglwm.
6. Rhaid i'r ymgeiswyr fod o fewn yr oedran priodol ar ddydd yr Eisteddfod.
7. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau neu golledion a ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
8. Unrhyw gŵyn yn ysgrifenedig o fewn wythnos.
9. Tynnir lluniau o'r cystadleuwyr buddugol ar y diwrnod.
10. Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyfferdinol (GDPR) mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

RHYBUDD

Mae llungopio cerddoriaeth argraffedig sydd o dan hawlfraint yn anghyfreithlon.

Lluniaeth ar gael am bris rhesymol.



a gynhelir yn

NEUADD EGRYN, LLANEGRYN, TYWYN, GWYNEDD
DYDD SADWRN, CHWEFOR 20fed, 2027

LLYWYDD Y DYDD

Huw Gruffydd Davies, Aberystwyth

ARWEINYDDION

Eurgain Haf Davies a Edward Tudor Jones

BEIRNIAID

Cerdd a Cherdd Dant ac Alaw Werin - Steffan Prys Roberts, Llanuwchllyn

Llefaru - Meinir Jones, Glanmerin

Llenyddiaeth Agored - Pryderi Gwyn Jones, Glantwymyn

Llenyddiaeth Cynradd - Arwel a Gwenfair Pierce, Bryncrug

Celf Cynradd - Mercia Hammond, Llanegryn

CYFEILYDD

Tudur P. Jones, F.R.C.O., Tywyn

Un cyfarfod i ddechrau am 1 o'r gloch

MYNEDIAD: £4.00

"Gwell dysg na golud"

Ni dderbynnir unrhyw waith ar gyfer ei feirniadu yn y cystadlaethau canlynol ar ôl Chwefror 1af, 2027. Dychwelir y gwaith llenyddol ar ôl yr Eisteddfod, os anfonir amlenni wedi eu cyfeirio a'u stampio i'r Ysgrifennydd gyda'r gwaith.

LLENYDDIAETH

40. Dan 25 oed: Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf hyd at 2000 o eiriau. Gwobr: £30
Bydd y beiriniad yn argymhell hyd at 3 darn o waith haeddiannol i fynd ymlaen i gystadleuaeth 'TLWS YR IFANC' yn Eisteddfod Genedlaethol 2027 am wobr o £200.
Dyfernir gwaith o'r eisteddfodau lleol rhwng Ebrill 2026 a Ebrill 2027.
41. Agored: Cyfieithu Erthygl ffotograffiaeth "Four seasons in Britain's National Parks – Eryri". (Copiau ar gael gan yr Ysgrifennydd).
Gwobr: £30.
42. Agored: Parodi ar "Yma o hyd". (Copiau ar gael gan yr Ysgrifennydd).
Gwobr: £30.

Cystadlaethau Lleol –

Cyfyngedig i Dalgylch 'Dail Dysynni'

43. Erthygl ar gyfer Papur Bro – Gwobr: Tlws Dail Dysynni er cof am Sulwyn (l'w chadw am flwyddyn) a £20.
44. Cystadleuaeth i'r dysgwyr – Darn o ryddiaeth ar y testyn "Chwaraeon".
Gwobr: £20.

RHESTR TESTUNAU

A THREFN CYSTADLAETHAU'R DYDD

CERDD A LLEFARU

1. Unawd Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau): Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2 a 50c i'r gweddill.
2. Llefaru Meithrin a Derbyn (5 oed ac iau): Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2 a 50c i'r gweddill.
3. Unawd Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
4. Llefaru Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.
5. Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

Cyflwynir Gwobr er cof am Elain Heledd i'r perfformiad llwyfan gorau ac i'r eitem gelf orau yn y Cyfnod Sylfaen

6. Unawd Bl 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.
7. Llefaru Bl 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.
8. Unawd Cerdd Dant Bl 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.
9. Unawd Bl 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.
10. Llefaru Bl 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.
11. Unawd Cerdd Dant Bl 5-6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

12. SEREMONI'R CADEIRIO. (Oddeutu 4 o'r gloch).

Cyflwynir cadair fechan i'w chadw am flwyddyn, ynghyd a gwobr ariannol o £20, i ddisgybl blwyddyn 5 neu 6 o ysgolion dalgylch Ysgol Uwchradd Tywyn, am ddarn o waith rhagorol.

13. Parti Llefaru Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £20, £15.

14. Parti Unsain neu Ddeulais Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £20, £15.

15. Unawd Alaw Werin Bl 6 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

16. Deuawd Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £15, £10, £8.
Y gwobrau ariannol yn rhoddedig gan y teulu er cof am Mr a Mrs George Lloyd Tŷ Bach y Ffordd, Llanegryn.

17. Unawd Piano/Unrhyw Offeryn Cerdd Bl. 9 ac iau. Hunan ddewisiad heb fod yn Hwyl na 5 munud. Gwobrau: £10, £8, £5.

18. Unawd Merched/Bechgyn Bl. 7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £5.

19. Llefaru Bl. 7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £5.

20. Unawd Cerdd Dant Bl.7 – 9. Hunan ddewisiad. Gwobrau £10, £8, £5.

21. Unawd Alaw Werin Bl.7-9. Hunan ddewisiad. Gwobrau: £10, £8, £5.

22. Unawd Piano/Unrhyw Offeryn Cerdd 19 oed ac iau:
Hunan ddewisiad heb fod yn hwyl na 7 munud. Gwobrau: £30, £20, £10.

23. Llefaru 19 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £30, £20, £10.

24. Unawd 19 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £30, £20, £10.

25. Unawd Cerdd Dant 25 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.

26. Llefaru 25 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.

27. Unawd 25 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.

28. Unawd Piano/Unrhyw Offeryn Cerdd 25 oed ac iau:
Hunan ddewisiad heb fod yn hwyl na 10 munud. Gwobrau: £40, £30, £20.

29. Cân Werin 25 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £40, £30, £20.

30. Canu Emyn 25 oed ac iau: hunan ddewisiad. (Dim mwy na 3 pennill).
Gwobrau: £40, £30, £20.

31. Unawd o Sioe Gerdd 25 oed ac iau: Hunan ddewisiad. Gwobrau £40, £30, £20.

Cyfyngir y cystadleuwyr yn y ddwy adran ddilynol i dalgylch Ysgol Uwchradd Tywyn. Bydd y Gwaith yn cael ei arddangos yn Eisteddfod Abergynolwyn a Llanegryn a gwobrwyir yr enillwyr un waith.

LLENYDDIAETH

32. Meithrin a Derbyn: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

33. Blwyddyn 1 a 2: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £5, £3, £2.

34. Blwyddyn 3 a 4: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

35. Blwyddyn 5 a 6: Hunan ddewisiad. Gwobrau: £8, £5, £3.

CELF A DYLUNIO

36. Meithrin a Derbyn: Llun 2D ar y themau "Pontio". Gwobrau: £5, £3, £2.

37. Blwyddyn 1 a 2: Llun 2D ar y themau "Pontio". Gwobrau: £5, £3, £2.

38. Blwyddyn 3 a 4: Llun 2D ar y themau "Pontio". Gwobrau: £8, £5, £3.

39. Blwyddyn 5 a 6: Llun 2D ar y themau "Pontio". Gwobrau: £8, £5, £3.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR

Cadeirydd: Avril Micah, Glanmorfa Mawr, Llanegryn, Tywyn.
avril48@outlook.com

Trysorydd: Janet Pugh, Ty'n Pwll, Llanegryn, Tywyn.

Ysgrifennydd:

Teleri Roberts, Cilfan y Coed, 54 Faenol Isaf, Tywyn,
LL36 0DW
(Ffôn: 01654 288 304)
teleri.roberts@outlook.com



Eisteddfod Gadeiriol Llanegryn

Rhif elusen: 504058



NODDWYR

**Cyngor Cymuned Llanegryn
Cronfa'r Degwm, Cyngor Gwynedd
Cronfa Elw Park-Jones**

YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

Sefydlwyd y gronfa i gynorthwyo eisteddfodau Cymru
a gwethfawrogir hyn yn fawr iawn.

DIOLCH

**Dymuna aelodau'r pwyllgor gydnabod yn ddiolchgar iawn bob
rhodd a gweithred er llwyddiant yr Eisteddfod. Ni fyddai'r
Eisteddfod yn ffynnu heb gefnogaeth ei charedigion.**